OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1795 (Cy.171)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*12 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Gorffennaf 2010*
Yn dod i rym - -	*17 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, y mae'r pwerau a roddwyd gan adrannau 3 a 4(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) bellach wedi eu breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010. Daw i rym ar 17 Awst 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006

2. Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

Erthygl 20 (atal ymlediad plâu planhigion)

3. Yn erthygl 20(2) ar ôl "Part 6" mewnosoder "or 7".

Erthygl 31 (archwilio, samplu a marcio)

4. Yn erthygl 31(1), ar ôl "for the purpose of", mewnosoder "determining whether any plant pest is present there (or for determining the distribution of any plant pest) or for the purpose of".

(**1**) 1967 p.8; diwygiwyd adrannau 3(1), (2) a (5) a 4(1) gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 8 o Atodlen 4 iddi. Amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48).

(**2**) O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy.158) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2716 (Cy.229), O.S. 2007/3305 (Cy.292), O.S. 2008/2781 (Cy.248), O.S. 2008/2913 (Cy.257) ac O.S. 2009/1376 (Cy.137).

Erthygl 38 (pŵer i fynd i mewn i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd)

5. Yn lle erthygl 38, rhodder—

"**Power to enter premises used wholly or mainly as a dwelling**

38.—(1) Articles 31, 33 and 37 do not apply to admission to any premises used only as a private dwelling-house unless 24 hours' notice of the intended entry has been given to the occupier, or the entry is in accordance with a warrant granted under this article.

(2) If a justice of the peace, on sworn information in writing, is satisfied that there are reasonable grounds for entry into any premises under article 31, 33 or 37 and—

(a) admission has been refused, or a refusal is expected, and (in either case) that notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier;

(b) asking for admission, or the giving of such a notice, would defeat the object of the entry;

(c) the case is one of urgency; or

(d) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent,

the justice may by signed warrant authorise an inspector to enter the premises, if necessary by reasonable force.

(3) A warrant granted under this article is valid for one month.

(4) An inspector who enters any unoccupied premises must leave them as effectively secured against unauthorised entry as they were before entry.".

Erthygl 45 (tramgwyddau)

6. Yn erthygl 45(1)(a)(**4**), yn lle paragraffau (xv) ac (xvi), rhodder—

"(xv) article 42(1);

(xvi) article 43(1); or

(xvii) paragraphs 3, 4, 5 or 6 of Schedule 15;".

Yn Atodlen 15 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Llyngyr Tatws)

7. Yn lle Atodlen 15 rhodder y testun a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

12 Mehefin 2010

(**4**) Mae diwygiadau i erthygl 45(1)(a) nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn